# Cymorth i Astudio Cam 1 – Canllawiau i Staff

## Diben

Mae'r canllaw hwn ar gyfer staff sy'n arwain Cam 1 o'r broses Cymorth i Astudio. Mae Cam 1 wedi'i gynllunio fel ymyrraeth gynnar, anffurfiol i ystyried y pryderon sy'n dod i'r amlwg ac i nodi cymorth priodol i'r myfyriwr. Y nod yw datrys unrhyw broblemau cyn iddynt waethygu a chefnogi'r myfyriwr i ail-ymgysylltu â'u hastudiaethau a'u bywyd prifysgol.

I gael gwybodaeth fanylach am y broses Cymorth i Astudio, cyfeiriwch at y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

## Sut mae Cam 1 yn cael ei ysgogi

Pan fydd Ffurflen Atgyfeirio Cymorth i Astudio wedi'i llenwi, bydd yn cael ei brysbennu gan y Gwasanaethau i Fyfyrwyr i asesu lefel y pryder a phenderfynu ar gam mwyaf priodol y broses. Os yw'r pryder yn cael ei nodi fel lefel isel, bydd yn cael ei reoli yng Ngham 1. Bydd yr aelod o staff perthnasol – yn aml y tiwtor personol neu'r aelod staff sy'n atgyfeirio – yn cael ei hysbysu a bydd yn arwain y broses Cam 1.

## Trefnu'r Cyfarfod

1. Cysylltwch â'r myfyriwr i drefnu cyfarfod un-i-un.
2. Eglurwch fod hon yn sgwrs gefnogol yn rhan o'r broses Cymorth i Astudio Cam 1. Gwnewch yn siŵr hefyd eu bod yn derbyn y Canllawiau Cymorth i Astudio i Fyfyrwyr.
3. I baratoi ar gyfer y cyfarfod, gwiriwch bresenoldeb ac ymgysylltiad y myfyriwr, ac adolygwch unrhyw bryderon hysbys (e.e. academaidd, lles, ymddygiad).

## Cynnal y cyfarfod

1. Byddwch yn glir, yn dosturiol, ac yn anfeirniadol.
2. Trafodwch gynnydd academaidd, unrhyw anawsterau personol a allai fod yn effeithio ar eu hastudiaethau a'u bywyd prifysgol (e.e. iechyd a lles).
3. Ystyriwch ba gefnogaeth y mae'r myfyriwr yn teimlo fyddai'n eu helpu.
4. Cytunwch ar gamau gweithredu cefnogol (e.e., cyfeirio, cynllun astudio, addasiadau rhesymol).
5. Defnyddiwch y Ffurflen Cyfarfod Cam 1 yn ystod y drafodaeth i gofnodi'r cyfarfod ac i gadarnhau'r camau gweithredu yn ysgrifenedig.

6. Cytunwch ar ddyddiad ac amser adolygu. Ar ôl cyflwyno'r Ffurflen Cyfarfod Cam 1, bydd yn cael ei hychwanegu'n awtomatig at galendrau'r aelod staff a'r myfyriwr.

## Cynnal y cyfarfod adolygu

Canlyniadau posibl:

- Caiff cynllun gweithredu ei roi ar waith i gefnogi'r myfyriwr i ymgysylltu â'u hastudiaethau a threfnir cyfarfod adolygu pellach.
- Mae'r myfyriwr yn parhau â'u hastudiaethau, a chaiff yr achos ei gau.
- Bydd achos y myfyriwr yn parhau i fod ar agor ond bydd yn cael ei atgyfeirio i gam nesaf y weithdrefn Cymorth i Astudio oherwydd pryderon cynyddol am eu lles, eu hymgysylltiad neu eu hymddygiad. Bydd asesiad pellach yn cael ei drefnu i ystyried y camau mwyaf priodol.

Dylid cofnodi pob canlyniad a phenderfyniad gan ddefnyddio'r Ffurflen Cyfarfod Cam 1.

## Pryd i uwchgyfeirio i Gam 2 neu 3

Mae uwchgyfeirio yn briodol:

- Os yw anawsterau'r myfyriwr yn gwaethygu neu'n dod yn fwy cymhleth ac na ellir eu rheoli mwyach yng Ngham 1.
- Os nad oes unrhyw ymgysylltiad ystyrlon â'r gefnogaeth y cytunwyd arni, a bod y materion yn parhau.

I uwchgyfeirio'r achos, llenwch Ffurflen Atgyfeirio Cymorth i Astudio arall.

## Cadw cofnodion

Mae'n hanfodol bod cofnodion cywir o'r holl gyfarfodydd a chanlyniadau yn cael eu cadw. Rhaid storio'r holl ddogfennau'n ddiogel, gan ddefnyddio systemau priodol y Brifysgol, ac yn unol â'r Polisi Rheoli Cofnodion.

## Angen cyngor neu gefnogaeth?

Cysylltwch â'r Gwasanaethau i Fyfyrwyr drwy s2s@aber.ac.uk neu 01970 621761